

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

CYNLLUN STRATEGOL 2019/2024



Cynnwys

Rhagair	3
Ein Gweledigaeth, Cenhadaeth a'n Gwerthoedd	4
Datganiad Llesiant	5
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru 2017/2018	6
Ein Cyllideb	7-8
Ein Perfformiad	9
Sut ydym yn cynllunio?.....	10
Crynodeb o'r cynllun	11-12
Thema Strategol 1.....	13-14
Thema Strategol 2	15-16
Thema Strategol 3	17-19
Thema Strategol 4	20-21
Thema Strategol 5	22-23
Yr Iaith Gymraeg	24
Lleisiau Dy Farn	24



Rhagair



Huw Jakeway

Prif Swyddog Tân
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru



Cyngorydd Tudor Davies

Cadeirydd
Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

Croeso i Gynllun Strategol Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) ar gyfer 2019–2024. Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno ein cynllun strategol ac yn egluro sut rydym yn bwriadu parhau i gyflawni gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n cwrdd ag anghenion ein cymunedau. Mae ein Gweledigaeth yn parhau'n ffocws allweddol i ni; "Gwneud De Cymru'n ddiogelach wrth leihau risg".

Rydym yn hyderus bydd ein themâu strategol hirdymor a'n camau blaenoriaeth byrdymor yn caniatáu i ni ddarparu gwasanaeth cynaliadwy. Byddant hefyd yn sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau fel partneriaid statudol o'r naw Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus (BGC) o fewn ardal ein Gwasanaeth a thystiolaethu ein hymrwymiad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015).

Mae ansicrwydd ariannol yn parhau i brofi ein hydwythedd wrth symud ymlaen ac mae yna demtasiwn i ganolbwyntio ar gostau a chyllidebau llai. Fodd bynnag, credwn yn gryf wrth drawsnewid sut rydym yn gweithredu ac wrth adnabod meysydd am gydweithrediad pellach â'n partneriaid, gallwn greu arbedion effeithlonrwydd a chynilion wrth wella'r gwasanaeth rydym yn darparu.

Mae deall effaith newid hinsawdd, o risg cynyddol gorlifo i risg tân gwyllt o ganlyniad i gyfnodau sych estynedig, yn ein helpu ni i gynllunio, paratoi a danfon ein hadnoddau i'r manau lle mae eu hangen ar draws De Cymru.

Mae angen i ni weithio'n agos a chydweithredu â'n partneriaid er mwyn darparu cyd-ganlyniadau'n llwyddiannus. Bydd hyn yn cynnwys cynllunio gwasanaethau sy'n dibynnu ar rannu adnoddau, a ddarperir ac sydd wedi'u targedu ar sail cyd-ddealltwriaeth o risg. Byddwn yn cydweithio â'n cymunedau i gynnwys pobl fel y cânt ddweud wrthym sut byddant eisiau cynllunio a darparu gwasanaethau i gwrdd a'u hanghenion i'r dyfodol.

Amlinella'r cynllun hwn ein hamcanion ar gyfer 2019–2024 ar sail cyflawni neu weithio tuag at gyflawni ein camau blaenoriaeth. Mae'r cynllun hefyd yn nodi ein hymrwymadau ariannol o setladau Awdurdod Lleol ac yn adnabod lle'r ydym yn bwriadu dyrannu gwariant. Mae'n nodi beth rydym yn bwriadu gwneud, â phwy fyddwn yn cydweithio, sut rydym yn cynllunio i'w ddarparu a pham y credwn ei fod yn bwysig.

Fe'ch gwahoddir i fwydo eich syniadau nôl ynghylch y cynllun hwn naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg, gan ein bod yn chwilio am ffyrdd o ymgysylltu â chi a gwella'n barhaus.



“Gwneud De
Cymru’n
ddiogelach wrth
leihau risg.”



Byddwn yn cyflawni hyn drwy:

- Wasanaethu anghenion ein cymunedau
- Weithio ag eraill
- Wynebu heriau wrth arloesi a gwella
- Lleihau risg wrth addysgu, gorfodi ac ymateb
- Lwyddo i wneud De Cymru’n ddiogelach



Sy’n diffinio beth yw ein cred;
ein rheolau craidd.

Pryd bynnag y dewch i gysylltiad â’r
Gwasanaeth, dylai’r gwerthoedd hyn fod
yn amlwg ar bob adeg.

- Gofalgar
- Ymroddgar
- Disgybledig
- Grymus
- Proffesiynol
- Hydwyth
- Parchus
- Dibynadwy



Mae’r cynllun yn cynnwys pedwar canlyniad trosfwaol:

1. Mae ein gweithlu’n amrywiol, yn gydradd ei werth, ac mae gan bawb fynediad at ddatblygiad yn ogystal â chyfleoedd proffesiynol.
2. Rydym yn defnyddio Strategaeth Gaffael Cymru a gweithdrefnau i sicrhau y defnyddir prosesau teg a thryloyw i gefnogi busnesau lleol a gwella cydraddoldeb ac amrywiaeth.
3. Cawn y data cywir/wybodaeth gywir ar yr adeg gywir gan y bobl gywir er mwyn sicrhau fod y cyfan y gwnawn yn cwrdd ag anghenion ein holl gymunedau.
4. Bydd ein systemau yn caniatáu monitro ac adrodd amserol o’n dyletswyddau cydraddoldeb sy’n ofynnol yn gyfreithiol.

Datganiad Llesiant

Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, rydym wedi ymroi i gwrdd â'n hymrwymadau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Mae'n rhoi'r cyfle i ni ystyried goblygiadau hirdymor ein gweithredoedd ac i weithio'n well gydag aelodau eraill y naw Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus yr ydym yn aelod ohonynt i sicrhau y cawn ddyrchafu a diogelu'r cymunedau rydym yn gwasanaethu.

Bydd hyn yn cynorthwyo'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru wrth ymddwyn mewn "ffordd sy'n ceisio sicrhau bydd anghenion y presennol yn cael eu cwrdd heb gyfamodi gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain". Mewn nifer o achosion, sonia'r cyfarwyddyd am ddull synnwyr cyffredin i wneud penderfyniadau a dyrannu adnoddau, a darparu fframwaith i ni dystiolaethu ein hymdrechion i'r dyfodol.

Mae'r Ddeddf yn cynnig saith nod ac rydym wedi adnabod camau amrywiol fydd yn cyfrannu at y rhain. Yn ychwanegol at hwn, rydym wedi cymhwyso cyfres o bum "ffordd o weithio" wrth wneud penderfyniadau o fewn y Gwasanaeth. Byddwn yn monitro ein cynnydd tuag at y rhain fel rhan o'n prosesau cyfredol.



GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU



10

o Awdurdodau Lleol



1,100

o filltiroedd sgwâr



684,040

o aelwydydd



1.5

miliwn o bobl



47,837

o adeiladau busnes

yn cynnwys

815

ymladdwr tân Llawn Amser

590

ymladdwr tân Ar-Alwad

312

Staff Cynnal

42

Staff Ystafell Rheoli

YN 2017 - 2018 FE WNAETH GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU:



ddelio â

32,765

o alwadau brys



dderbyn galwad i fynychu

567

o danau damweiniol yn y cartref

dderbyn

582

o alwadau ffug

o'r rhain adnabwyd

333

gan Reoli Tân eu bod yn ffug



ymateb i

17,237

o ddigwyddiadau, lle'r oedd



5,792

yn danau

3,761

yn argyfyngau heb fod yn dân a



7,684

yn alwadau ffug



mynychwyd

467

o danau cerbydau ffordd bwriadol



1,139

o wrthdrawiadau traffig ar y ffordd gyda



152

o'r rhain

ynghlwm â datglymu pobl



cynhaliwyd

977

o ymweliadau ag ysgolion



yn ymgysylltu â

46,965

o bobl ifanc

darparwyd:

ataliad, diogelwch ac ymateb

24

awr yr dydd

7

diwrnod yr
wythnos

365

diwrnod yr flwyddyn

89

y pen bob
wythnos yn unig



cynhaliwyd

17,396

o Archwiliadau Diogelwch
rhag Tân yn yr Cartref

A chynnal


890

o archwiliadau diogelwch

Ein Cyllideb


Yn 2019-2020, mae'r Awdurdod Tan ac Achub yn bwriadu gwario ychydig dros £74.7 miliwn ar ddarparu ei wasanaethau, sydd gyfystyr â 94c yr wythnos i gadw pob person yn Ne Cymru'n ddiogel. Daw'r arian a warir gennym yn bennaf o Awdurdodau Lleol. Yn wastadol, ein nod yw arddangos gwerth am arian ynghyd â darparu ein gwasanaethau ar y gost leiaf bosib, ond y safon uchaf bosib. Wrth ystyried faint i'w wario, mae'r angen i wella'r ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau a lleihau risg yng nghymunedau De Cymru'n parhau'n flaenoriaeth i ni.

Mae'r siart isod yn dangos ein gwariant arfaethedig ar gyfer 2019 - 2020. Mae mwyafrif ein gwariant ar gostau gweithwyr; gwariwyd tua 75% ar staff rheng flaen.



Ein Cyllideb

Mae'r map yn amlinellu o le daw'r mwyafrif o'n cyllid. Selir y symiau a gyfrifwyd ar ffigyrau poblogaeth i bob ardal Awdurdod Lleol.




Ein Perfformiad

Mae Llywodraeth Cymru'n gosod Dangosyddion Strategol i fesur perfformiad Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Rydym yn monitro'r dangosyddion hyn ac yn gosod targedau, ac yna, rydym yn gosod cynlluniau fel hynny i ganiatáu i ni gyflawni'r targedau a osodwyd. Isod mae crynodeb o'n perfformiad am y 4 blynedd ddiwethaf ac sy'n amlinellu'n targed ar gyfer 2019/2020.

Dangosydd Strategol	2014/2015	2015/2016	2016/2017	2017/2018	Targed 2019/2020
Tanau a Fynychwyd	5,917	6,578	5,797	5,792	5,900
Galwadau Ffug a Fynychwyd	8,196	8,323	8,190	7,684	7,500
Cyfanswm y Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd a Fynychwyd	1,281	1,322	1,178	1,138	1,050
Galwadau Gwasanaeth Arbennig Eraill a Fynychwyd	2,005	2,101	2,147	2,623	2,000
Marwolaethau ac Anafiadau a Achoswyd gan Danau	57	85	92	67	66
Marwolaethau ac Anafiadau a Achoswyd gan Danau Damweiniol	47	76	74	58	59
Canran y Tanau Mewn Anheddau a Gynhwyswyd yn yr Ystafell Lle Tarddasant	85%	85%	85%	84%	85%

Sut ydym yn cynllunio



Crynodeb o'r Cynllun

Ein Themâu Strategol yw;	Bydd ein Camau Blaenoriaeth (CB) yn caniatáu i ni gyflawni hyn wrth;	I ddarparu hwn, rydym yn cynllunio i;
Lleihau Risg 	CB1 - Sicrhau ein bod yn darparu ymateb effeithlon, effeithiol a pherthnasol i'n cymunedau. CB2 - Weithio ag eraill i ddarparu addysg i'n cymunedau i atal niwed a diogelu rhag risg niwed.	• Wella'r ffordd rydym yn ymateb i danau ac argyfyngau eraill • Gael y bobl, offer, cerbydau a'r sgiliau iawn yn barod ar yr adeg gywir ac yn y man cywir • Ddatblygu ymweliadau Diogelwch yn y Cartref i gynnwys cymorth ehangach i bobl • Fod yn fwy parod i ddelio â digwyddiadau sy'n cynnwys adeiladau lle gall uchder gael effaith ar wacáu a gweithio gyda pherchnogion a meddianwyr yr adeiladau hyn i leihau tebygrwydd ag effaith tân • Gasglu gwybodaeth gan bobl a brofodd tân er mwyn arbed tanau yn y dyfodol • Sicrhau bod gan ymladdwyr tân wybodaeth hanfodol ynghylch adeiladau a gosodiadau eraill sydd ar gael iddynt pan fyddant eu hangen
Ymgysylltu a Chyfathrebu 	CB3 - Ddatblygu dulliau effeithlon ac effeithiol o ymgysylltu a chyfathrebu â'n cymunedau i'w cynnwys hwy yn sut rydym yn darparu ein gwasanaethau).	• Adolygu sut mae Gorsafoedd Tân yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a dulliau eraill o gyfathrebu i ymgysylltu â'u cymunedau lleol • Ddatblygu a dyrchafu cyfathrebiadau ac ymgysylltiad gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau y tu fewn a thu allan i'r Gwasanaeth • Ddarparu digwyddiadau ymgysylltu Cymunedol drwy law amrediad o weithgareddau

Maethu Adnoddau Cynaliadwy 	CB4 - Sicrhau ein bod yn denu, datblygu a chadw gweithlu sy'n adlewyrchu ein cymunedau ac sy'n gallu darparu gwasanaethau effeithiol heddiw ac i'r dyfodol. CB5 - Leihau effaith ein Gwasanaeth ar yr amgylchedd i sicrhau cynaliadwydd i'r dyfodol.	• Feddu ar ffocws clir ar iechyd a ffitrwydd ein staff drwy fecanweithiau cymorth priodol • Gwblhau'r Cyfleuster Hyfforddiant Ymddygiad Tân Adrannol yng Nghanolfan Hyfforddi Porth Caerdydd a sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion hyfforddi'r Gwasanaeth • Sicrhau bod ein gweithgareddau hyfforddi'n cwrdd ag anghenion y Gwasanaeth • Ddatblygu cwrs Gofal Brys ar Unwaith / trawma tân i gwrdd ag anghenion gweithredol • Adolygu'r effaith y caiff ein gweithgareddau ar yr amgylchedd a gweithio i ddileu, lleihau a gostwng hyn • Ddatblygu camau i leihau'r effaith y caiff defnyddio ein cerbydau ar yr amgylchedd
Anwesu Technoleg 	CB6 - Sicrhau y defnyddiwn dechnoleg i alluogi darparu gwasanaethau gwell ac effeithlon.	• Sicrhau bod ein systemau TGCh yn effeithlon, yn effeithiol ac y'u gwarchodir rhag ymosodiadau seibir • Ddatblygu cynlluniau i'w defnyddio mewn achos o fethiant systemau TGCh • Sicrhau bydd dillad ac offer ymladd tân o'r ansawdd uchaf • Ddefnyddio ein Systemau Rheoli Gwybodaeth Busnes fel hyb data canolog
Cryfhau Partneriaethau 	CB7 - Weithio â'n Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus a'n partneriaid i gefnogi cymunedau lleol.	• Barhau i leihau risg wrth weithio'n effeithiol gyda'n Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus yn ein cymunedau lleol • Gyflwyno, datblygu a monitro strategaeth i ostwng galwadau ffug a dderbyniwyd drwy law systemau larwm tân awtomatig



Thema Strategol 1

Byddwn yn **Lleihau Risg** wrth:

Sicrhau ein bod yn darparu ymateb effeithlon, effeithiol a pherthnasol i'n cymunedau

(CB 01)

Weithio ag eraill i ddarparu addysg i'n cymunedau i atal niwed a diogelu rhag risg niwed

(CB 02)

Golyga hyn:

Byddwn yn darparu ataliad rhag, amddiffyniad rhag ac ymateb i argyfyngau er mwyn diogelu ein cymunedau. Mae tystiolaeth yn awgrymu y bu ein gweithgareddau ataliol yn hynod ddylanwadol wrth ostwng argyfyngau yn y blynyddoedd diweddar - tuedd yr ydym yn awyddus i'w gynnal a'i wella. Un o sbardunau allweddol rhaglen ein hymgyrchoedd ataliol yw'r wybodaeth rydym yn caffael gan sefydliadau eraill ac yn rhannu â hwy, sy'n caniatáu i ni ddatblygu ymgyrchoedd penodol yn seiliedig ar dystiolaeth ystadegol. Felly, rydym yn dymuno "caffael y data cywir/wybodaeth gywir ar yr adeg gywir gan y bobl gywir er mwyn sicrhau fydd popeth y gwnawn yn cwrdd ag anghenion ein holl gymunedau" (Canlyniad Cydraddoldeb 3) a sicrhau "bydd ein systemau'n caniatáu monitro ac adrodd amserol o'n dyletswyddau cydraddoldeb sy'n ofynnol yn gyfreithiol" (Canlyniad Cydraddoldeb 4).

Rydym yn cyflawni hyn oherwydd:

Wrth ddatblygu'r Cynlluniau Llesiant ar gyfer pob un o'n Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, fe'n hysbyswyd gan y cyhoedd eu bod yn dymuno cymunedau diogel, cyfeillgar a chydlynus. Byddwn yn chwarae ein rhan wrth rannu gwybodaeth â phartneriaid a chyfrannu ar lefel leol at gyflawni'r nod hon. Bydd gweithio'n gydweithredol yn sicrhau ein bod yn darparu neges gydlynus i bobl mewn cymunedau, nid yn unig ynghylch diogelwch ond hefyd ynghylch amrediad o fentrau eraill i wella llesiant y gymuned gyfan. Bydd hyn yn sicrhau bydd cenedlaethau'r dyfodol yn elwa o'r gwaith rydym yn gwneud nawr, gan gynnwys ymatebion penodol a dargedwyd gan ddata i bobl ac ardaloedd sydd mewn perygl fwyaf. Byddwn yn darparu amrediad eang o weithgareddau ataliol i gadw'n cymunedau'n ddiogel.

Rhai pethau a wnaethpwyd gennym yn barod

- Amnewidiwyd ein hoffer achub o ddŵr
- Adolygwyd ac aseswyd ein cynlluniau hyfforddi ar gyfer Achub o Ddŵr
- Cychwynnwyd adeiladu cyfleuster Hyfforddiant Ymddygiad Tân Adrannol
- Profwyd ein parhad busnes drwy law ymarferion yn cynnwys ein staff Cynorthwyol Wrth Gefn a Diogelwch
- Hwyluswyd ac anogwyd cydweithredu rhwng ein swyddogion gwylfa Rheoli Tân a Rheolwyr Digwyddiadau Heddlu De Cymru
- Cynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu a diogelwch cymunedol llwyddiannus law yn llaw â Her Sefydliad Achub y DU ym Mae Caerdydd a'r Diwrnod Gwasanaethau Brys
- Cynhaliwyd ymweliadau ar hap ac Archwiliadau Diogelwch rhag Tân yn y Cartref yn dilyn tanau mewn anheddau
- Ymgysylltwyd â pherchnogion adeiladau i sicrhau fod pob adeilad yn ein hardal yn cwrdd â'r safonau diogelwch perthnasol yn dilyn adolygiad Y Fonesig Judith Hackett wedi trychineb Tŵr Grenfell
- Darparwyd hyfforddiant, mewn cydweithrediad â Gwasanaeth Tân Gorllewin Canolbarth Lloegr i bersonél gweithredol yn ymwneud ag ymladd tân tyrrau uchel
- Gweithiwyd â chyrrff cynrychioliadol i gyflwyno Archwiliadau Diogelwch rhag Tân yn y Cartref pellach
- Cychwynnwyd adolygiad o ddata i ddarogan dadansoddiad tuedd digwyddiadau 50 mlynedd wedi rhoi amrywiaeth o ffactorau allanol i gynorthwyo wrth benderfynu gofynion, adnoddau a hyfforddiant hirdymor y gwasanaeth
- Ehangwyd Archwiliadau Diogelwch rhag Tân yn y Cartref i gynnwys cwestiynau ar atal syrthiadau, diogelwch Carbon Monocsid, atal Ysmygu, atal dwyn, cynlluniau anonest (SGAMIAU) a chartrefi Oer
- Parhau i leihau mynychiad dianghenraid adnoddau'r GTA wrth gynorthwyo perchnogion adeiladau a phersonau cyfrifol wrth ostwng digwyddiadau lle ysgogir larymau tân diangen
- Dysgwyd o bob tân damweiniol mewn anheddau wrth gynnal archwiliadau ôl-dân





Thema Strategol 2

Byddwn yn **Ymgysylltu**
a **Chyfathrebu** wrth:

Ddatblygu dulliau effeithlon ac effeithiol o ymgysylltu
a chyfathrebu â'n cymunedau i'w cynnwys hwy yn sut
rydym yn darparu ein gwasanaethau

(CB 03)

Golyga hyn:

Byddwn yn gwella a symleiddio'r ffordd rydym yn cyfathrebu ac ymgysylltu â phobl leol ynghylch gwasanaethau lleol. Byddwn yn defnyddio nifer o ddulliau i greu deialog ddwy ffordd â phobl ar sut rydym yn darparu ein gwasanaethau. Mae'r ffordd rydym yn ymgysylltu yn gwella ac mae ein cyrhaeddiad yn ymestyn. Fodd bynnag, gwerthfawrogwn fod angen i ni wella. Â hyn mewn golwg, byddwn yn ceisio'n galetach i gyrraedd y grwpiau a'r cymunedau hynny sydd heb gynrychiolaeth ddigonol sydd angen i ni ymgysylltu mwy â hwy. Targedir ein negeseuon, a rhai ein partneriaid, at y rhai hynny sydd fwyaf angen ein help. Yn ychwanegol at hyn, rydym yn cydnabod yr angen am ddull tîm a gwerthfawrogi pwysigrwydd ymgysylltu, ymgynghori a chynnwys pob cyfranddaliwr i lunio ein gwasanaethau i'r dyfodol ar y cyd. Bydd y dull hwn yn sicrhau byddwn yn ystyried amrywiaeth ein cymunedau a'n staff o fewn ein cynllunio i'r dyfodol.

Rydym yn cyflawni hyn oherwydd:




Mae deall, gwranddo ar ein cymunedau a'u cynrychioli'n rhan hanfodol o'n rôl. Rydym yn edrych ar ffyrdd lle'r ydym yn gwneud hyn; rydym yn cydnabod fod cymdeithas yn newid ac felly, mae angen i ni newid sut rydym yn cyfathrebu. Byddwn yn cyflawni hwn wrth agor sianelau cyfathrebu â phawb, yn enwedig y grwpiau a chymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

Bydd pawb yn elwa o hyn oherwydd bydd yn caniatáu i ni gadw pobl yn gyfredol ynghylch materion a all eu heffeithio hwy. Hefyd, cawn wrando ar beth mae ein cymunedau'n dweud a gweithredu'n gyflym i ddatrys problemau. Bydd hyn yn cynnwys ymgyrchoedd a arweiniwyd gan ddata gwybodus sy'n adnabod a thargedu'r rhai hynny sydd fwyaf mewn perygl rhag trosedd neu gamdriniaeth.

Mae ymgysylltu a chyfathrebu yn caniatáu i ni gysylltu â'n cymunedau ac ennill gwybodaeth werthfawr am y gwasanaethau a ddarperir gennym. Credwn fod ymgysylltu â chi yn helpu ein dealltwriaeth o'r rhai hynny sydd mewn perygl ehangach ac yn caniatáu i ni addasu ein gweithgareddau i weddu anghenion cymunedau ac unigolion.

Rhai pethau a wnaethpwyd gennym yn barod

- Diwygiwyd ein Strategaeth Gyfathrebiadau ac Ymgysylltu
- Eithafwyd ein cyfleoedd i ymgysylltu ac ymgynghori â'n cymunedau wrth gynllunio gan ein Grŵp Cyfathrebiadau ac Ymgysylltu, gan sicrhau bydd pob gweithgaredd yn cydymffurfio â GDPR, Deddf Cydraddoldeb 2010 a Safonau'r Iaith Gymraeg
- Cynyddwyd ein hymgysylltiad â chymunedau lle'r ydym yn ymlafnio â recriwtio ar alwad
- Manteisiwyd ar ein cyfleoedd ymgysylltu yn ystod digwyddiad Her Sefydliad Achub y DU ym Mae Caerdydd. Defnyddiwyd dulliau arloesol o ymgysylltu, e.e. holiadur sgrîn gyffwrdd, iaith symlach
- Adnabuwyd darparwr hyfforddi allanol a galluogwyd aelodau tîm i fynychu hyfforddiant priodol i ddatblygu eu sgiliau cyfryngau cymdeithasol ac ymgysylltu er mwyn cefnogi ein cynlluniau cyfryngau cymdeithasol ac ymgysylltu diwygiedig ar gyfer 2019
- Parhawyd ein defnydd llwyddiannus o'r cyfryngau cymdeithasol a sianelau digidol eraill i ymgysylltu a chyfathrebu â phreswylwyr a chyfranddalwyr allweddol eraill. Yn gyfredol, mae gan dudalen Facebook y Gwasanaeth 22,000 o ddilynwyr ac mae gan gyfrif Twitter/Trydar y Gwasanaeth dros 26,000 o ddilynwyr diolch i'r ffordd ragweithiol rydym yn ymgysylltu wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol
- Gwobrwywyd â gwobr aur am gael y Tîm AD Mewnol Gorau yng Ngwobrau CIPR Pride Cymru 2018
- Datblygwyd tudalennau rhwydweithio cymdeithasol gorsafoedd a anelwyd at ymgysylltu a chyfathrebu â'u cymunedol lleol
- Lansiodd Tudalen Instagram GTADC
- Lansiodd gwefan gorfforaethol newydd





Thema Strategol 3

Byddwn yn **Maethu** **Adnoddau Cynaliadwy** wrth

Sicrhau ein bod yn denu, datblygu a chadw gweithlu sy'n adlewyrchu ein cymunedau ac sy'n gallu darparu ein gwasanaethau effeithiol heddiw ac i'r dyfodol (CB 04)

Leihau effaith ein Gwasanaeth ar yr amgylchedd i sicrhau cynaliadwyedd i'r dyfodol (CB 05)

Golyga hyn:

Mae ein hadnoddau cynaliadwy yn cynnwys aelodau o'n staff yn ogystal â'r adnoddau corfforol rydym yn defnyddio. Byddwn, felly yn parhau i adeiladu ar y sylfeini a osodwyd gennym wrth ddod yn gyflogwr dewisol a byddwn yn gweithio'n galed i gadw ein gweithwyr i gadw'r lefel sgiliau uchel a'r wybodaeth o fewn y Gwasanaeth. Bydd hyn yn caniatáu i ni ddarparu ein gwasanaethau mewn modd effeithlon a phroffesiynol. Yn ystod ymgyrchoedd recriwtio, byddwn yn gwneud pob ymdrech rhesymol i sicrhau bydd ein gweithwyr yn adlewyrchu ein cymunedau, a'u bod yn amrywiol, yn werthfawr a bod ganddynt fynediad at ddatblygiad, yn ogystal â chyfleoedd proffesiynol (Canlyniad Cydraddoldeb 1).

Byddwn hefyd yn parhau i leihau effaith y Gwasanaeth ar yr amgylchedd gyda nifer o fentrau i sicrhau ein bod yn chwarae ein rhan yng nghynaliadwyedd y dyfodol. Bydd gan y broses benderfynu a chynllunio o fewn y Gwasanaeth ganolbwynt cryf ar gynaliadwyedd a, lle bynnag posib, byddwn yn prynu o ffynonellau cynaliadwy lleol (Canlyniad Cydraddoldeb 2).

Rydym yn cyflawni hyn oherwydd:

Credwn ei fod yn bwysig atynnu, datblygu a chadw gweithlu sy'n adlewyrchiad teg o'n cymunedau ac sy'n gallu darparu ein gwasanaethau mewn modd proffesiynol, nawr ac i'r dyfodol. Yn ychwanegol, credwn ei fod yn hanfodol i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd ac annog ffyrdd arloesol o weithio sy'n cynhyrchu llai o allyriadau carbon bob blwyddyn. Mae hwn yn cefnogi ein nodau Cynllun Llesiant yn ogystal â nod Llywodraeth Cymru i sefydliadau'r sector cyhoeddus dyfu'n garbon niwtral erbyn 2030 (cyfeiria carbon niwtral at gyfrifiad o gyfanswm allyriad carbon endid fel sero, a ddaeth i fod wrth wrthbwysu'r swm o garbon a ryddhawyd ganddo â'r swm a wrthbwysir ganddo). Mae hyn yn cefnogi ein cynlluniau cynaliadwyedd i ostwng, dileu neu ailgylchu cymaint ag y medrwn i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd.




Cynaliadwyedd:

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (D L I CD) yn nodi y dylai "pob gwasanaeth cyhoeddus weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau y caiff anghenion y presennol eu cwrdd heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion hwy". Rydym wedi ymgymryd â gweithgareddau am beth amser sy'n lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd. Gwnaethom fuddsoddiadau hirdymor i systemau sy'n lleihau gwastraff a byddwn yn parhau i chwilio am ffyrdd sy'n gwneud GTADC yn arweinydd cynaliadwyedd. Bydd yr holl benderfyniadau a chynlluniau a wnaed gennym yn ystyried yr Egwyddor Datblygu Gynaliadwy, sy'n cynnwys y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru sydd wedi'i gorffori o fewn D L I CD.

Rhai pethau a wnaethpwyd gennym yn barod

- Cychwynnwyd adeiladu cyfleuster Hyfforddiant Ymddygiad Tân Adrannol (HYTA) newydd yng Nghanolfan Hyfforddi a Datblygu Porth Caerdydd fydd yn sicrhau bydd pob ymladdwyr tân yn derbyn yr hyfforddiant risg critigol mwyaf cyfredol. Bydd y cyfleuster yn sicrhau nad oes allyriadau deunyddiau llosgadwy yn cael eu gollwng i'r amgylchedd lleol
- Cyflwynwyd y Cynllun Gwasanaeth Tân Cynhwysol sy'n casglu i un lle'r gwelliannau cynhwysol, diwylliannol ac ymddygiadol sy'n ofynnol i sicrhau bydd gwelliannau gwirioneddol yn darparu canlyniadau gwirioneddol i staff a darpar ddefnyddwyr ein gwasanaethau
- Crëwyd, yn dilyn Gwobr Arian Buddsoddwyr mewn Pobl, Rhwydwaith Ymgysylltu Staff sy'n caniatáu i ni ddeall ein gweithwyr a'u galluogi hwy i gyfrannu'n fwy effeithiol at beth ydym yn gwneud
- Cynhaliwyd digwyddiadau recriwtio "Ar Alwad"
- Cyflwynwyd wyth cytundeb "Ar Alwad" ychwanegol
- Cynhaliwyd anghenion y Gwasanaeth drwy law'r rhaglen ddatblygu i gymhwysedd i ymladdwyr tân.
- Cyfathrebwyd canlyniadau ein hadroddiad BmP i'r staff cyfan a chrëwyd rhwydwaith staff i ddatblygu'r meysydd datblygu a adnabuwyd o fewn yr adroddiad
- Datblygwyd gosodiad goleuadau LED yn ein safleoedd
- Gosodwyd systemau rheoli adeiladau yn ein safleoedd
- Archwiliwyd y defnydd o gerbydau trydanol neu hybrid ar draws y Gwasanaeth
- Prynwyd dau beiriant tân Euro 6 sy'n cydymffurfio ag allyriadau i wella ein fflyd gyfredol
- Cyflwynwyd system rheoli tanwydd electronig a gosodwyd tanc tanwydd ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân i gynorthwyo'r defnydd effeithlon ac effeithiol o gerbydau a gwella rheolau mewnol

- Amnewidiwyd pob tywel sychu dwylo a wnaed o bapur mewn toiledau ag unedau sychu dwylo grymus newydd, gan arbed papur ac ailgylchu
- Gosodwyd goleuadau LED ynni effeithlon newydd, sy'n cynnwys synwryddion is-goch goddefol i ganfod symudiadau a goleuadau argyfwng. Bydd y buddsoddiad hwn yn arbed dros 450,000 cilogram/CO₂ (Carbon Deuocsid) y flwyddyn ar hyd ein safleoedd yn Ne Cymru
- Amnewidiwyd nifer o unedau awyru aneffeithiol. Wrth amnewid yr unedau hyn, rhagdybiwn arbediad allyriadau blynyddol o tua 100,000 cilogram/CO₂ bob blwyddyn
- Gosodwyd System Rheoli Adeiladau (SRhA) i amryw o orsafoedd tân fydd yn lleihau treuliant nwy a thrydan ym mhob safle ac sy'n caniatáu i ni fonitro'r defnydd o'n pencadlys. Disgwylir i'r buddsoddiad hwn arbed tua 150,000 cilogram/CO₂ y flwyddyn
- Gosodwyd systemau rheoli boeleri newydd mewn amryw o orsafoedd tân fydd yn lleihau gwastraff a chostau ynni. Disgwylir arbed yn agos at 76,000 cilogram/CO₂ y flwyddyn
- Archwiliwyd datrysiadau mwy effeithlon ar gyfer treuliant pŵer a ffactorau amgylcheddol, e.e. yn ein Canolfannau Data
- Rhannwyd ein hadeiladau'n effeithiol â gwasanaethau golau glas eraill i leihau'r ôl-troed carbon cyfansymiol
- Prynwyd rhaglen arweinyddiaeth strategol drwy law Prifysgol De Cymru ar ran y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru. Dechreuodd y cohort cyntaf ynghynt yn y flwyddyn. Mae disgwyl i'r rhaglen Pioneer dechreuol gwblhau yn Ionawr 2019
- Adolygwyd ac aseswyd ein proffiliau cwrs a'n cynlluniau gwersi ar gyfer Achub o Ddŵr i sicrhau cywirdeb wrth gipio'r cynnwys cywir yn ôl canllawiau DEFRA





Thema Strategol 4

Byddwn yn **Anwesu Technoleg** wrth:

Sicrhau y defnyddiwn dechnoleg i alluogi darparu gwasanaethau gwell ac effeithlon

(CB 06)

Golyga hyn:

Rydym wedi sicrhau fod gennym systemau Technoleg, Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) sydd argael i wneud arbedion effeithlonrwydd ac i gefnogi darparu ein gwasanaethau. Rydym wedi buddsoddi mewn systemau newydd fel y cawn wella'r ffordd yr ydym yn gweithio a byddwn yn parhau i wneud hyn. Bydd hefyd yn caniatáu i ni gaffael y data a'r wybodaeth gywir ar yr adeg gywir gan y bobl gywir i sicrhau bydd popeth y gwnawn yn cwrdd ag anghenion ein cymunedau (Canlyniad Cydraddoldeb 3).


Rydym yn cyflawni hyn oherwydd:

Bydd ein datblygiadau technolegol yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i lesiant ehangach ein staff a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Bydd y modd yr ydym yn defnyddio ein data a'n gwybodaeth a'r ffordd yr ydym yn ei rannu yn cael ei fonitro'n agosach i ddiogelu sut y cyflwynir y wybodaeth hon.

Golyga'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol bydd angen cynllunio gofalus a rheolaeth ragweithiol i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r cyfreithiau newydd sy'n llywodraethu sut rydym yn trafod data. Bydd hyn yn llesol i'n cymunedau, gan fydd gennym drefniadau diogelu ychwanegol ynghylch sut y rhennir gwybodaeth â phartneriaid. Hefyd, bydd yn cael effaith ehangach ar sut rydym yn darparu ein gwasanaethau wrth ddefnyddio technoleg i amddiffyn a hysbysu pobl, gan fydd mwy o graffu ar sut y rheolir y maes hwn o'r Gwasanaeth.

Rhai pethau a wnaethpwyd gennym yn barod

- Datblygwyd ein systemau Rheoli Tân ymhellach yn y Cyd-Ganolfan Rheoli Tân ym Mhen-y-bont ar Ogwr
- Cydweithredwyd ar draws y tri Gwasanaeth Tân ac Achub Cymreig i gynhyrchu manyleb dechnegol ar gyfer y feddalwedd Terfynell Data Symudol newydd
- Cyflawnwyd System Gwybodaeth Raffigol Cwantwm (QGIS) fel datrysiad mapio
- Cyflwynwyd gwefan newydd sy'n anwesu'r dechnoleg ddiweddaraf ac sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y cyhoedd a gynrychiolwn
- Cyflwynwyd dyfeisiau chwimwth newydd ar draws y gwasanaeth megis ffonau clyfar, tabledi a gliniaduron i ddarparu mynediad diogel haws i systemau a gwasanaethau
- Defnyddiwyd y dechnoleg ddiweddaraf o fyrdau gwaith 4G, lloeren a rhithwir ar yr Uned Rheoli Digwyddiadau newydd
- Darparwyd y gallu i bob defnyddiwr gyrchu systemau'r gwasanaeth o ddyfeisiau a berchnogwyd yn bersonol neu gan y gwasanaeth a hynny mewn modd diogel





Thema Strategol 5

Byddwn yn **Cryfhau**
Partneriaethau wrth:

Weithio â'n Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus a'n
partneriaid i gefnogi cymunedau lleol

(CB 07)

Golyga hyn:

Mae gennym hanes hir a balch o weithio ar y cyd ag asiantaethau eraill i ddarparu gwelliannau mesuradwy wrth sicrhau arbedion effeithlonrwydd ehangach. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod, i gwrdd â gofynion y dyfodol, bydd gweithio'n gydweithredol yn tyfu hyd yn oed yn fwy pwysig eto. Bydd hyn yn cynnwys cyfrannu at flaenoriaethau strategol lleol a chynorthwyo wrth wella llesiant cymunedol drwy ein hymglymiad â phartneriaethau grŵp allweddol.

Cysylltwyd ein llwyddiant i'r dyfodol yn uniongyrchol i'r modd yr ydym yn gweithio gydag eraill. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cydweithredu arwyddocaol ac effeithiol a'r angen i ddatblygu a chynnal mentrau cydweithredol â phartneriaid allweddol. Bydd cydweithredu hefyd yn cefnogi cyflenwi canlyniadau gwell i'n cymunedau a chynorthwyo wrth ddarparu ein gwasanaethau mewn modd gwell, mwy cost effeithiol ac effeithlon.

Mae bod yn bartner statudol ar y naw Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus (BGC) o fewn ardal ein gwasanaeth yn golygu y buom yn gweithio mewn modd cydweithredol â'n partneriaid i saernïo eu Cynlluniau Llesiant. Byddwn yn adeiladu ar y gwaith gwych hwn ac yn sicrhau fod y cynlluniau yn darparu gwelliannau i'r bobl yn ein cymunedau ar gyfer yr hirdymor. Y nod yn y pendraw yw sicrhau ein bod yn gweithredu heddiw mewn modd sydd ddim yn cyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fyw bywydau iach a hapus. Byddwn yn rhannu data â'n partneriaid BGC i sicrhau ein bod oll yn gwneud yr hyn y gallwn i gwrdd ag anghenion ein holl gymunedau i leihau digwyddiadau a chadw ein cymunedau'n ddiogel ac iach (Canlyniad Cydraddoldeb 3).

Dros y bum mlynedd nesaf, ein dyhead yw cael ein hadnabod fel partner galluogi allweddol o fewn y sector cyhoeddus a phreifat ehangach.


Rydym yn cyflawni hyn oherwydd:

Pan fydd gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithredu, gallwn gyflawni mwy. Cawsom, ers sawl blwyddyn, gysylltiadau cryf â'n partneriaid a nawr, bydd bod yn rhan o'r BGC yn cryfhau'r cysylltiadau hyn. Mae llwyddiant y Cynlluniau Gwelliant hyn yn gofyn am ymdrech gynhwysfawr gan bob partner ac mae De Cymru'n dibynnu arnom i chwarae rôl allweddol wrth lunio'r dyfodol. Bydd hyn yn llesol i'n cymunedau mewn sawl ffordd, ac fe gwmpasir pob un o fewn y saith nod llesiant. Yn y pendraw, byddwn yn creu Cymru well nawr ac i genedlaethau'r dyfodol.

Gall gweithio cydlynus fel rhan o gymuned sydd â chysylltiadau da ddarparu gwelliant ehangach yn hytrach nag wrth weithio ar eich pen eich hun, a thrwy hynny, sicrhau gwell cyfleoedd i gadw preswylwyr, busnesau ac ymwelwyr De Cymru'n ddiogelach. Nid yn unig bydd hwn yn fuddiol i'n cymunedau, ond bydd hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Credwn fod gennym ddyletswydd i gael y data cywir a'r wybodaeth gywir ar yr adeg gywir gan y bobl gywir er mwyn sicrhau ein bod yn cwrdd ag anghenion ein holl gymunedau. Ni allwn gyflawni hyn ar ein pennau ein hunain; mae'n rhaid i ni weithio gydag eraill i gyflawni hyn.

Rhai pethau a wnaethpwyd gennym yn barod

- Parhawyd i eithafu'r cyfleoedd cydweithredol gyda phartneriaid allanol, e.e. yng Nghyd-Reoli Tân, a gyda phartneriaid mewnol, e.e. Atal ac Amddiffyn Rheoli Tân a Darparu Gwasanaethau
- Buom yn gweithio â'r gymuned amaethyddol i edrych ar y broblem o danau gwyllt i annog mwy o ffermwyr a pherchnogion tir i ddatblygu "cynlluniau llosgi" diogel ac effeithiol
- Ymgysylltwyd yn effeithiol â'n naw partner BGC
- Diweddarwyd ein Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Diogelwch Cymunedol yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol
- Cafwyd gwelliant yn ein partneriaethau gwaith drwy law dyrchafu ymhellach cyd-leoliad ein hadeiladau â gwasanaethau golau glas eraill



Yr Iaith Gymraeg

Rydym yn awyddus i wasanaethu'n effeithiol y rhai hynny sy'n dewis byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg. O ganlyniad i Fesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011, cyflwynwyd Rhybudd Cydymffurfiaeth Safonau'r Iaith Gymraeg i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru gan Gomisiynydd y Gymraeg. Cyhoeddir y Rhybudd Cydymffurfiaeth hwn ar ein gwefan a rhydd fanylion ynghylch pa wasanaethau gall ddinasyddion ddisgwyl derbyn yn Gymraeg. Rydym yn chwilio i ymgysylltu â siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i wella safon gyfansymiol y gwasanaeth a ddarperir, gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg.

Lleisia dy farn

Rydym yn chwilio'n barhaol am ffyrdd o wella ein gwasanaethau ac i gyflwyno gwybodaeth sy'n ystyrlon. I gyflawni hyn, rydym am sicrhau yr ystyrir eich safbwyntiau wrth ddarparu ein gweithgareddau a chyflwyno gwybodaeth i chi.

Yn arbennig, byddwn yn croesawu eich sylwadau a'ch / neu'ch cwestiynau parthed y Cynllun Strategol hwn, beth yr ydym wedi'i gyflawni yn barod a beth ydym yn bwriadu ei wneud i'r dyfodol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg - byddwn yn ymateb yn gydradd i'r ddwy iaith ac yn ateb yn eich dewis iaith yn ddiymdroi. Rydym yn croesawu galwadau yn Gymraeg a Saesneg.

Ysgrifennwch atom

Perfformiad Gwasanaeth a Chyfathrebiadau,
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru,
Parc Busnes Forest View
Llantrisant
CF72 8LX

Ymwelwch â'n gwefan

www.decymru-tan.gov.uk

Ffoniwch ni

01443 232000



@TanDeCymru



@TanDeCymru



@sw_fire_and_rescue

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru



South Wales
Fire and Rescue Service